Eich Preifatrwydd **Chi**
Eich Hawliau **Chi**




# Pam mae GIG Cymru yn casglu gwybodaeth **amdanoch chi** a **y gellir ei defnyddio**

**Mae sawl rhan o'r GIG megis ysbytai, Meddygon Teulu, Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr Cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal i bobl Cymru.**

Nod y bobl a'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yw darparu gofal o'r ansawdd uchaf i chi. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni gadw cofnodion am eich iechyd ac unrhyw driniaeth neu ofal a ddarperir i chi.

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i ofalu am wybodaeth o ddifrif. Mae gan staff GIG Cymru ddyletswydd gyfreithiol i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol, yn gywir ac yn ddiogel, ac maent wedi'u hyfforddi i drin gwybodaeth amdanoch yn gywir i ddiogelu eich preifatrwydd.

Rydym yn defnyddio gwybodaeth amdanoch i ganiatáu i'r rhai sy'n ymwneud â'ch triniaeth neu ofal gael gwybodaeth gywir a chyfredol i asesu eich iechyd, penderfynu pa driniaeth neu ofal sydd ei hangen arnoch a phryd a ble y byddwch yn derbyn hyn.

**RHAGOR O WYBODAETH** mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn rheoli gwybodaeth a'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data ar gael yn y daflen ganlynol

I gael rhagor o wybodaeth, gofynnwch i aelod o staff neu ewch i'r wefan isod:

**www.plasmenaihealthcentre.co.uk**